# Protection of Children and Young People & Adults at Risk

cyswllt celf
arts connection

Click here for the Welsh version

## Section 1 - Introduction

Arts Connection – Cyswllt Celf (AC – CC) is committed to protecting children, young people and adults at risk from Physical, Emotional or Sexual Abuse. This policy applies to:

- Children: Anyone under the age of 18
- Young People: Usually refers to someone aged 16 – 25, but under safeguarding law, those under 18 are legally children
- Adults at risk: A person aged 18+ who has needs for care and support, and who may be unable to protect themselves from harm, neglect or exploitation

To implement this safeguarding policy, we will

- Adopt a clear safeguarding policy statement (See Section 2)
- Plan work to minimise opportunities for abuse
- Ensure anyone seen one-to-one by a worker is introduced to a second trusted person
- Prohibit closed or exclusive relationships between staff, freelancers and volunteers and participants
- Ensure staff, freelancers and volunteers have access to this policy
- Encourage and support all staff, freelancers and volunteers to undertake safeguarding training triennially
- Follow safe recruitment practices: reference checks, DBS checks and probationary periods
- Provide guidance on handling disclosures or concerns, aligned with local safeguarding procedures (See Section 7)
- Have a Simple Safeguarding Guide which is a condensed version of this policy

The policy aligns with various legislations such as the:

- Wales Safeguarding Procedures 2019
- Safeguarding Children: Working Together under the Children Act 2023
- Social Services and Well-being (Wales) Act 2014
- Well-being of Future Generations Act 2015

It is used in conjunction with other internal policies, including:

- Conflict of Interest
- Data Protection
- DBS
- Code of Conduct
- Learner Voice
- ICT & Social Media

## Section 2 - Policy Statement

AC – CC:

- Is committed to the care, protection, and safeguarding of all children, young people, and adults at risk
- Believes safeguarding is everyone's responsibility and all individuals must report suspected or actual abuse
- Is dedicated to supporting, resourcing and training staff, freelancers and volunteers
- Ensures every worker receives a copy of this Safeguarding Policy and is expected to follow it
- Maintains close links with relevant external organisations, shares policies with them, and invites feedback

## Section 3 - Good Practice Guidelines for the Prevention of Abuse with Children & Young People

Staff, freelancers and volunteers, to the best their ability will ensure that:

- They are not left alone with an individual child or young person where activity cannot be seen. Wherever possible, there should be a teacher, youth worker, parent or other responsible adult present
- Where a one-to-one conversation happens and privacy and confidentiality are important, try to ensure another adult knows it is taking place and are nearby and that the child or young person knows where other people are
- They treat all children or young people with respect, watch language, tone of voice, physical contact, proximity and space
- Do not engage in the following:
    - Invading the privacy of children or young people when showering or toileting
    - Rough, physical or sexually provocative games
    - Making sexually suggestive comments about or to a child or young person, even in 'fun'
    - Inappropriate and intrusive touching of any form
    - Any scapegoating, ridiculing or rejecting a child or young person
- When they discipline children and young people it should not involve physical punishment or practices which harm an individual's social, emotional and mental wellbeing
- They do not invite a child or young person to yours alone; invite a group or ensure that someone else is in the house. Make sure parents know where the child or young person is
- They do not give lifts to children or young people on their own, other than for short journeys (up to 5 minutes). If they are alone, ask them to sit in the rear of the vehicle
- Where possible avoid sharing sleeping accommodation with children or young people if you take a group away

## Section 4 - Good Practice Guidelines for the Prevention of Abuse with Adults at Risk

Staff, freelancers and volunteers should allow the adult at risk to have:

- Independence - to think, act and make decisions, even when this involves a level of risk
- Dignity - recognition that everyone is unique, with intrinsic value as a person
- Respect - for a person's needs, wishes, preferences, language, race, religion and culture
- Equality - the right of people to be treated no less favourably than others because of their age, gender, disability, sexual orientation, religion, class, culture, language, race, ethnic origin or other relevant distinctions
- Privacy - the right of the individual to be left alone or undisturbed and free from intrusion or public attention in their affairs
- Choice - the right to make choices, and to have the alternatives and information that enable choices to be made

## Section 5 - Procedures and Safety Measures for Online Workshops and Events:

- All contact online being observable and interruptible
- Staff, freelancers and volunteers to wear suitable clothing
- Any computers being used should be in appropriate areas, for example not in bedrooms and the background should not be blurred
- Workshops will not be carried out on a one-to-one basis and will be done in a group setting with several people present
- No direct messaging between staff and participants on personal accounts
- Where possible, two adults should be present in digital settings, especially with under-18s.

You can forward these links to parents or others who are concerned about children and young people being online:

- https://www.nspcc.org.uk/keeping-children-safe/online-safety/
- https://www.childrenscommissioner.gov.uk/coronavirus/digital-safety-and-wellbeing-kit

## Section 6 - Types of Abuse

**Types & Signs of Abuse for Children, Young People & Adults at Risk**

The following **may** indicate abuse, but do not jump to conclusions. There could be other explanations.

**Physical** Where the child's, young person's or adults at risk body is hurt or injured. Unexplained or hidden injuries with lack of medical attention.

**Emotional** Where the child, young person or adult at risk doesn't receive love and affection, may be frightened by threat or taunts, or are given responsibilities beyond their years.

**Sexual** Where adults (and sometimes young people) use young people or adult at risk to satisfy sexual desires. Pre-occupation with sexual matters evident in words, play drawings, being

sexually provocative with adults, disturbed sleep, nightmares, bedwetting, secretive relationships with adults or young people, tummy pains with no apparent cause.

| | |
|---|---|
| **Neglect** | Where adults fail to care for the child, young person or adult at risk and protect them from danger, seriously impairing health and developments. Looking ill-cared for and unhappy, being withdrawn or aggressive, having lingering injuries or health problems. |
| **Financial** | Taking money, goods or property without permission. This can include theft, fraud, exploitation or putting pressure on someone to make a will, transfer the ownership of property or carry out other financial transactions. Unexplained shortage of money, reluctance of person with responsibility for their funds shows a reluctance to provide basic food or clothes, belongings or property missing |

**Additional Types & Signs of Abuse for Adults at Risk**

| | |
|---|---|
| **Discrimination** | Is being discriminated against, for example, for their race, sex or a disability |
| **Domestic Abuse** | Examples include psychological, physical, sexual, financial, emotional abuse or 'honour'-based violence |
| **Modern Slavery** | Includes slavery, human trafficking and forced labour |
| **Organisational Abuse** | Include neglect and poor care within an institution or specific care setting such as a hospital or care home |
| **Self-Neglect** | Includes not caring for personal cleanliness, health or surroundings and includes behaviour such as hoarding |

## Section 7 - Procedures if Abuse is Disclosed or Discovered

### 1) Responding to a Disclosure

When a child, young person or adult at risk discloses abuse, you should:

- Find a private place to talk, ideally in view of another adult or with another adult present
- Listen calmly without interrupting or judgement
- Do not promise to keep secrets. Instead say: "This conversation is confidential, but if I believe you are in danger, I must share this with someone who can help. I will always act in your best interests."
- Note what they say, using their own words, as soon as possible

Good Practice:

- Maintain eye contact, sit at their level and be honest
- Assume they may have been threatened not to tell
- Try to understand what they are most afraid of
- Reassure the child that they are being taken seriously
- Tell them that you believe them
- Let them know what you are going to do, and, as far as possible what is going to happen next
- Praise them for telling and surviving the abuse
- Always finish on a positive note

Helpful things to say:

- I believe you
- You were right and brave to tell me
- I'm sorry this happened to you
- It's not your fault
- The person who hurt you was wrong

Avoid saying

- Why? How? When? Where? Who? (leading questions)
- "Are you sure?" or "I can't believe it."
- This is really serious (this can frighten the person)
- Promises such as "I won't tell anyone."
- Expressions of shock ("I'm shocked," "Don't tell anyone else")

## 2) Reporting the Allegation of Abuse

- You must report all allegations immediately to the Responsible Person(s) listed in **Section 10**
- If they are unavailable, or the allegation involves them, contact the **duty social worker** (contacts below) directly
- If the person is in immediate danger, call the **police (999)**

| Service | Area | Office Hours Number | Out-of-Hours / Emergency Number / Other Contact |
|---|---|---|---|
| Powys Front Door Services | Powys | 01597 827 666 | 0345 054 4847 |
| Adult Social Care | Wrexham | 01978 292 066 | 0345 053 3116 |
| Child Social Care | Wrexham | 01978 292 039 | 0345 053 3116 |
| ASSIST (Adult Support Info Team) | Powys | 0345 602 7050 | 0300 333 2222 |
| NSPCC Helpline | National | 0808 800 5000 | help@nspcc.org.uk |
| Police | National | 999 / 101 | 0845 3302 000 |
| Regional Safeguarding Board | Mid and West Wales | | https://www.cysur.wales/home |

## 3) What Will Happen Next

The Responsible Person(s) will refer to the appropriate professional services. Possible steps include:

- A strategy discussion with Social Services, Police, Protection Teams, and relevant professionals
- Decision on whether to investigate. If yes, a joint investigation by Social Services and Police will begin
- The investigation may involve:
  - An informal talk with the person
  - A formal video recorded interview
  - Medical examination
  - Family assessment

- Internal disciplinary processes may follow
- A protection conference may be held to plan support and protection. Criminal prosecution may result

**4) Debriefing**

- Within 7 days, a Responsible Person will check in with the staff, freelancer or volunteer who received the disclosure
- This debrief will cover wellbeing, issues and support needs

## Section 8 - Record-Keeping and Confidentiality

- All safeguarding records must be factual, signed, dated and kept securely
- Records relating to children must be kept until the subject reaches age 25
- Records relating to adults at risk should be kept for 6 years after closure of the case
- AC - CC complies with the Data Protection Act 2018 and UK GDPR

## Section 9 – Staff Wellbeing and Whistleblowing

- We will provide at least one counselling session for staff, freelancers and volunteers where they may have been impacted by a disclosure and / or incident as part of their work with us and signposted to Mind or other relevant support - refer also to our **Wellbeing Strategy**
- Staff and volunteers can raise concerns about unsafe practice or behaviour via the Whistleblowing Policy

## Section 10 - Responsible People

Designated staff member: Siân Walters, Arts Manager
01691 648 929 - 07814 523 521 - sian@artsconnection.org.uk

Designated Trustee: Martin Duckers, Board of Trustees
01691 649 063 – 07940 569 179 - duxicus@gmail.com

Mae'r polisi hwn yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gyfer plant ac oedolion agored i risg o gam-drin ac esgeulustod 2019
- Diogelu Plant: Cydweithio dan Ddeddf Plant 2004
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Ac fe'i ddefnyddir ar y cyd â'r polisïau canlynol a fabwysiadwyd gennym:

- Gwrthdaro mewn Buddiannau
- Diogelu Data
- DBS
- Cod Ymddygiad
- Llais y Dysgwr
- TGCh a Chyfryngau Cymdeithasol

## Adran 1 - Cyflwyniad – Canllawiau

Mae Cyswllt Celf wedi ymrwymo i ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion agored i risg rhag cael eu cam-drin yn Gorfforol, yn Emosiynol neu'n Rhywiol. Mae'r ddogfen bolisi hon yn berthnasol i unrhyw waith gyda phlant a phobl ifanc dan 18 oed, ac, ac eithrio darpariaethau hysbysu rhieni, dylid ei ystyried fel canllaw o ran gweithio gyda phobl ifanc dros 18 oed, a gydag oedolion y gellir eu hystyried yn agored i risg - yn enwedig oedolion ag anableddau dysgu.

I fabwysiadau Polisi Diogelu, rydym wedi rhoi ar waith y gweithdrefnau canlynol:

- Rydym wedi mabwysiadau datganiad polisi o ran diogelu lles plant, pobl ifanc ac oedolion agored i risg. (Gweler Adran 2)
- Cynllunnir gwaith Cyswllt Celf er mwyn lleihau a mwy neu lai dileu sefyllfaoedd lle gall plant, pobl ifanc neu oedolion agored i risg cael eu cam-drin.
- Mae plant, pobl ifanc neu oedolion agored i niwed sy'n dod i gysylltiad gyda staff Cyswllt Celf ar sail unigol yn cael eu cyflwyno, mor fuan ag sy'n bosib i ail unigolyn, fyddai'n fodlon siarad gyda nhw os oes angen. Gwaherddir cysylltiadau caeedig.
- Mae pob artist cyflogedig a gwirfoddolwr, sy'n dod i gysylltiad gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion agored i risg, yn atebol i Gyswllt Celf. Bydd ganddynt gopïau o'r canllawiau hyn, a byddant yn deall gweithdrefnau diogelu plant, pobl ifanc neu oedolion agored i risg.
- Mae gan bob aelod o staff cyflogedig, pob artist a gwirfoddolwr swyddogaethau clir.
- Mae staff cyflogedig, artistiaid a gwirfoddolwyr yn atebol i reolwr prosiect, neu reolwr atebol, ac os nad ydynt yn gweithio o fewn y canllawiau hyn gall unigolyn ddisgwyl gael ei herio.
- Byddwn yn delio gyda phob aelod o staff cyflogedig, pob artist a gwirfoddolwr fel ymgeiswyr am swydd os byddant yn gweithio gyda Chyswllt Celf mewn swyddi lle byddant yn dod i gysylltiad gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion agored i risg.
- Byddwn yn cadarnhau profiad ymgeiswyr o weithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion agored i risg ar y ffurflen gais, a thrwy dystlythyrau lle bo angen, cyn eu penodi.

- Byddwn yn gwirio os oes gan ymgeisydd unrhyw euogfarnau am droseddau yn erbyn plant, pobl ifanc neu oedolion agored i risg, trwy wiriad DBS.
- Mae pob penodiad, boed yn gyflogedig neu'n wirfoddol, yn amodol ar gwblhau cyfnod prawf yn llwyddiannus.
- Rydym yn cyhoeddi canllawiau ar sut i ddelio gyda datgelu neu ddarganfod achos o gam-drin, i'w defnyddio ar y cyd gyda gweithdrefnau diogelu lleol.
- Mae'n rhaid i bob aelod o staff gael gwiriad DBS cyn cael gweithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion agored i risg.

## Adran 2 - Datganiad Polisi

- Mae Cyswllt Celf wedi ymrwymo i ofalu am, amddiffyn a diogelu'r holl blant, pobl ifanc neu oedolion agored i risg sy'n cael cysylltiad gyda'r sefydliad.
- Ym marn Cyswllt Celf, mae diogelu'n fusnes pawb. Mae pob unigolyn sy'n gysylltiedig â Chyswllt Celf yn gyfrifol am atal plant, pobl ifanc, neu oedolion agored i risg rhag cael eu cam-drin yn gorfforol, yn rhywiol ac yn emosiynol, ac i adrodd unrhyw achosion lle datgelir neu amheuir achos o gam-drin.
- Mae Cyswllt Celf yn cydnabod fod y sefydliad cyfan yn gyfrifol am y plant, pobl ifanc neu oedolion agored i risg.
- Mae Cyswllt Celf wedi ymrwymo i gefnogi, darparu adnoddau ar gyfer a hyfforddi'r holl staff cyflogedig a gwirfoddol, ac am ddarparu sesiynau goruchwylio.
- Bydd pob gweithiwr yn derbyn copi llawn o Bolisi Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Risg Cyswllt Celf – a byddant yn ymwybodol o'r argymhellion, ac yn cytuno i gydymffurfio â nhw. Byddant yn ymroi'n llwyr i'n gweithdrefnau.
- Fel rhan o ymrwymiad Cyswllt Celf i blant, pobl ifanc ac oedolion agored i risg, rydym wedi ymrwymo i gynnal cysylltiadau agos gyda sefydliadau allanol perthnasol. Byddant yn derbyn copïau o'n polisïau, yn derbyn gwahoddiad i gynnig sylwadau, adolygu'r polisïau ac i'n cynorthwyo gydag unrhyw newidiadau angenrheidiol.

## Adran 3 - Canllawiau Arfer Dda o ran Atal Cam-drin Plant a Phobl Ifanc

Dylem sicrhau:

- Mor bell ag sy'n bosib, nad yw gweithiwr wrth ei hunan gyda phlentyn neu berson ifanc unigol, lle nad yw'n bosib gweld y gweithgaredd. Ble bynnag fo hynny'n bosib, dylai athro, gweithiwr ieuenctid, rhiant neu oedolyn cyfrifol arall fod yn bresennol.
- Mewn perthynas â sgyrsiau un-i-un ym maes gwaith ieuenctid lle mae preifatrwydd a chyfrinachedd yn bwysig o ran trafodaethau unigol, ceisiwch sicrhau fod oedolyn arall yn gwybod fod y cyfweliad yn digwydd, a gyda phwy. Os yn bosib, dylai oedolyn arall fod gerllaw, a dylai'r plentyn neu berson ifanc hefyd fod yn ymwybodol ble mae pobl eraill ar y pryd.

Dylech chi, y gweithiwr:

- Delio gyda phob plentyn a pherson ifanc mewn ffordd barchus, gwylio eich iaith, tôn eich llais, cyswllt corfforol agosrwydd a gofod.
- Peidio â gwneud unrhyw un o'r canlynol:

- Amharu ar breifatrwydd plant neu bobl ifanc pan fyddant yn cael cawod neu yn y toiled;
- Chwarae unrhyw gemau garw, corfforol neu sy'n rhywiol eu natur;
- Gwneud unrhyw sylwadau rhywiol eu natur am neu i blentyn neu berson ifanc, hyd yn oed fel 'sbort';
- Cyffwrdd â phlentyn neu berson ifanc mewn ffordd amhriodol neu ymwthgar;
- Trin unrhyw blentyn fel bwch dihangol, neu wawdio neu wrthod plentyn neu berson ifanc.

- Dysgu rheoli a disgyblu plant a phobl ifanc heb ddefnyddio cosbau corfforol neu arferion sy'n niweidiol i lesiant cymdeithasol, emosiynol neu feddyliol unigolyn.
- Peidio â gadael i blant neu bobl ifanc eich tynnu i gyswllt trwy ymddygiad sy'n mynnu sylw, sydd yn amlwg yn rhywiol neu'n gorfforol ei natur.
- Peidio â gwahodd plentyn neu berson ifanc i dreulio amser gyda chi wrth eich hunan; dylid gwahodd grŵp, neu sicrhau fod rhywun arall yn y tŷ. Gwnewch yn siŵr fod rhieni'n gwybod ble mae'r plentyn neu berson ifanc.
- Peidiwch â rhoi lifft i blentyn neu berson ifanc wrth ei hunan, ar wahân i daith fer (hyd at 5 munud). Os bydd wrth ei hunan, gofynnwch i'r plentyn/person ifanc eistedd yng nghefn y cerbyd.
- Lle bo'n bosib, dylid osgoi rhannu mannau cysgu gyda phlant neu bobl ifanc os byddwch yn mynd i ffwrdd gyda grŵp.

## Adran 4 - Canllawiau Arfer Dda er mwyn Atal Cam-drin ymhlith Oedolion agored i risg

Dylech chi'r gweithiwr, adael i'r oedolyn mewn risg gael:

- Annibyniaeth: i feddwl, gweithredu a gwneud penderfyniadau, hyd yn oed os bydd hyn yn golygu lefel o risg.
- Urddas: a chydnabod fod pawb yn unigryw, gyda gwerth cynhenid fel person.
- Parch: ar gyfer anghenion, dymuniadau, dewisiadau, iaith, hil, crefydd a diwylliant yr unigolyn.
- Cydraddoldeb: hawl pobl i beidio cael eu trin yn llai ffafriol nag eraill oherwydd oedran, cenedl, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, dosbarth, diwylliant, iaith, hil, tarddiad ethnig neu unrhyw wahaniaethau perthnasol eraill.
- Preifatrwydd: hawl yr unigolyn i gael ei adael yn llonydd neu heb i neb darfu arno ac yn rhydd rhag unrhyw amhariaeth neu sylw cyhoeddus yn eu busnes.
- Dewis: yr hawl i ddewis, ac i gael dewisiadau amgen a gwybodaeth i alluogi gwneud dewisiadau.

### Gweithdrefnau a Mesurau Diogelwch ar gyfer gweithdai a digwyddiadau ar-lein:

Mae'r mesurau sydd yn eu lle o'r safbwynt yma fel a ganlyn:

- Gellir arsylwi ar a thorri ar draws unrhyw gyswllt ar-lein
- Mae'n rhaid i staff ac arweinyddion gweithdai wisgo dillad addas
- Dylai unrhyw gyfrifiaduron sy'n cael eu defnyddio fod mewn lleoliad priodol, er enghraifft nid mewn ystafell wely, a dylai'r cefndir fod yn glir
- Ni chynhelir gweithdai ar sail unigol; byddant yn cael eu cynnal gyda grŵp gyda nifer o bobl yn bresennol
- Bydd aelod o staff ar gael bob amser trwy gydol y gweithdy neu ddigwyddiad ar-lein

## Diogelwch ar-lein:

Gallwch anfon y dolenni isod ymlaen at rieni neu eraill sy'n poeni am ddiogelwch plant a phobl ifanc ar-lein:

- https://www.nspcc.org.uk/keeping-children-safe/online-safety/
- https://www.childrenscommissioner.gov.uk/coronavirus/digital-safety-and-wellbeing-kit/

# Adran 5 - Mathau o Gam-drin

**Mathau ac Arwyddion o Gam-drin ar gyfer Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion agored i Risg**

Gall y canlynol fod yn arwydd o gam-drin, ond peidiwch â neidio i gasgliad. Gall fod eglurhad arall.

| | |
|---|---|
| **Corfforol** | Lle caiff corff y plentyn, person ifanc neu oedolyn agored i risg ei frifo neu ei anafu. Anafiadau diesboniad neu gudd sydd heb gael sylw meddygol. |
| **Emosiynol** | Lle nid yw'r plentyn, person ifanc neu oedolyn agored i risg yn derbyn cariad a hoffter, hwyrach y bydd yn teimlo'n ofnus oherwydd bygythiad neu wawdio, neu'n derbyn cyfrifoldebau tu hwnt i'w oedran. |
| **Rhywiol** | Lle bydd oedolion (a phobl ifanc weithiau) yn defnyddio pobl ifanc neu oedolyn agored i risg i fodloni dyheadau rhywiol. Os bydd unigolyn yn ymgolli mewn materion rhywiol sy'n amlwg trwy eiriau, tynnu lluniau, trwy fod yn bryfoclyd gydag oedolion mewn ffordd rywiol, tarfu ar gwsg, hunllefau, gwlychu'r gwely, perthynas gudd gydag oedolion neu bobl ifanc, poen yn y bol heb unrhyw achos amlwg. |
| **Esgeulustod** | Lle bydd oedolion yn methu gofalu am y plentyn, person ifanc neu oedolyn agored i risg, a'i ddiogelu rhag perygl, gan amharu'n ddifrifol ar iechyd a datblygiad. Yn edrych yn flêr ac anhapus, yn encilio neu'n ymosodol, gydag anafiadau neu broblemau iechyd hirbarhaol. |
| **Ariannol** | Cymryd arian, nwyddau neu eiddo heb ganiatâd. Gall cynnwys dwyn, twyll, cam-fanteisio neu roi pwysau ar rywun i wneud ewyllys, trosglwyddo perchnogaeth eiddo neu gyflawni trafodion ariannol eraill. Prinder arian diesboniad, anfodlonrwydd unigolyn sy'n gyfrifol am faterion cyllid i ddarparu bwyd neu ddillad sylfaenol, neu os bydd eiddo yn mynd ar goll. |

**Mathau ac Arwyddion Ychwanegol o ran Oedolion Agored i Risg**

| | |
|---|---|
| **Gwahaniaethu** | Unigolyn sy'n destun gwahaniaethu, er enghraifft, ar sail hil, rhyw neu anabledd |
| **Cam-drin Domestig** | Ymhlith esiamplau mae cam-drin seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol, emosiynol neu drais ar sail 'anrhydedd' |
| **Caethwasiaeth Fodern** | Sy'n cynnwys caethwasiaeth, masnachu pobl a llafur gorfod |
| **Cam-drin Sefydliadol** | Sy'n cynnwys esgeulustod a diffyg gofal mewn sefydliad neu leoliad gofal penodol megis ysbyty neu gartref gofal |
| **Hunan-esgeulustod** | Sy'n cynnwys peidio gofalu am hylendid personol, iechyd, neu'r cartref ac yn cynnwys ymddygiad megis cronni |

# Adran 6 - Gweithdrefnau wrth Ddatgelu neu Ganfod Cam-drin

1. Siaradwch â'r unigolyn sydd wedi gwneud y datgeliad

- Dylid defnyddio lleoliad, gydag oedolyn arall neu lle mae oedolyn arall yn gallu'ch gweld, i gynnal sgwrs gyda'r unigolyn sydd wedi datgelu ichi neu sydd wedi gofyn gwneud datgeliad.
- Nid yw'n bosib nodi'n union beth i'w wneud pan fydd plentyn, person ifanc neu oedolyn agored i risg yn dweud wrthych am achos o gam-drin. Cynigir y pwyntiau canlynol fel cyfarwyddyd:
    - Hwyrach y bydd plentyn, person ifanc neu oedolyn agored i risg yn gofyn ichi gadw cyfrinach, peidio dweud wrth unrhyw un neu'n holi hyd yn oed, os bydd yr hyn mae'n ei ddweud wrthych yn gyfrinachol. Mae popeth y mae plentyn, person ifanc neu oedolyn agored i risg yn ei ddweud wrthych yn gyfrinachol, ond nid yw hyn yn golygu ei gadw ichi'ch hunan. Bydd gofyn ichi rannu'r wybodaeth gyda'r unigolyn (unigolion) cyfrifol a nodir yn Adran 9. Yn ein barn ni, mae hyn dal yn gyfrinachol.
    - Felly, dylech geisio tawelu meddwl y plentyn, person ifanc neu oedolyn agored i risg fod yr hyn sy'n cael ei drafod gyda chi yn: Gyfrinachol - "Ond os byddaf yn credu dy fod ti mewn perygl, a bod angen cymorth ychwanegol arnat, bydd yn rhaid imi siarad gyda rhywun arall. Beth bynnag a wnaf, bydd hynny er dy fudd di."

- Pwyntiau Cyffredinol
    - Edrychwch yn uniongyrchol ar y plentyn, person ifanc neu oedolyn agored i risg
    - Ceisiwch gadw eich llygaid ar lefel gyfartal neu'n is na llygaid y plentyn, person ifanc, neu oedolyn agored i risg
    - Dwedwch y gwir
    - Gadewch i'r unigolyn wybod pam y byddwch yn dweud wrth rywun arall
    - Dylech gymryd yn ganiataol fod y plentyn, person ifanc, neu oedolyn agored i risg wedi cael ei fygwth i beidio dweud wrth neb
    - Ceisiwch ddarganfod beth sy'n codi ofn arno/arni, fel y byddwch yn gwybod sut i helpu orau
    - Gwnewch gofnod ysgrifenedig cyn gynted â phosib. Ceisiwch ysgrifennu'n union yr hyn a ddywedodd y plentyn, person ifanc neu oedolyn agored i risg wrthych.
- Pethau defnyddiol i'w dweud:
    - Rwy'n dy gredu di
    - Mae'n ddrwg gen i fod hyn wedi digwydd
    - Rwy'n falch dy fod wedi dweud wrthyf
    - Nid dy fai di yw hyn
    - Rwy'n poeni amdanat a byddaf yn dy helpu
    - Gwnest ti'r peth iawn trwy ddweud wrthyf, mae'n berffaith iawn dweud wrth rywun
    - Roeddet ti'n ddewr iawn yn dweud wrthyf
    - Doedd y camdriniwr ddim yn iawn (peidiwch â defnyddio 'drwg')
    - Hyd yn oed os bydd y plentyn, person ifanc, neu oedolyn agored i risg wedi torri rheol, nid nhw sydd ar fai am y cam-drin.
- Ceisiwch osgoi dweud y canlynol
    - Pam? Sut? Pryd? Ble? Pwy?
    - Wyt ti'n siŵr?
    - Pam na ddywedaist o'r blaen?
    - Fedra i ddim credu hynny
    - Datganiadau megis "Mae hyn yn ddifrifol iawn"
    - Rhoi addewid ffals
    - "Peidiwch â dweud wrth neb arall", "Rwyf wedi cael fy synnu"
- I orffen:
    - Dwedwch wrth y plentyn, person ifanc, neu'r oedolyn agored i risg eich bod yn ei gredu
    - Dwedwch wrth y plentyn, person ifanc, neu'r oedolyn agored i risg beth fyddwch yn ei wneud, ac mor bell ag sy'n bosib, beth fydd yn digwydd nesaf

- Dylid canmol y plentyn, person ifanc neu oedolyn agored i risg am ddweud wrthych ac am barhau ar ôl cael ei gam-drin
- Dylech wastad orffen ar nodyn positif

2. Cofnodi Honiad o Gam-drin

**Mae'n rhaid adrodd unrhyw honiad o gam-drin ar unwaith.**

- Yn y lle cyntaf, dylid adrodd honiadau i Unigolyn (Unigolion) Cyfrifol Cyswllt Celf – gweler y manylion yn Adran 9
- Os nad yw'r Unigolyn (Unigolion) Cyfrifol ar gael, neu os ydy'r honiad yn ymwneud ag ef/hi, dylech gysylltu â'r gweithiwr cymdeithasol ar ddyletswydd - gweler manylion cyswllt isod
- Os yn eich barn chi, mae'r plentyn, y person ifanc neu'r oedolyn agored i risg mewn perygl difrifol ac uniongyrchol, dylech gysylltu â'r Heddlu

Manylion Cyswllt Gweithwyr Cymdeithasol ar Ddyletswydd:

- Gwasanaethau Plant Powys ar gyfer atgyfeiriadau caeedig neu newydd: 01597 827 666
- Powys – POB ardal – Tu allan I Oriau - 08450 544 847
- Gogledd Powys (Y Drenewydd) ar gyfer achosion agored - 01686 617 531
- De Powys ar gyfer achosion agored: Aberhonddu - 01874 624 298 neu Landrindod - 01597 827 325
- Wrecsam - 01978 292 039
- Wrecsam Tu allan i Oriau – 0345 053 3116

Cysylltiadau defnyddiol eraill:

- CYMORTH (Gwasanaeth Cymorth Gofal Cymdeithasol i Oedolion) - 0345 602 7050
- Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru - https://www.cysur.wales/home
- Yr Heddlu - 999, 101 neu 08453 302 000

3. Beth fydd yn digwydd nesaf

Bydd yr Unigolyn (Unigolion) Cyfrifol yn rhannu'r wybodaeth gyda'r gwasanaethau proffesiynol priodol a all dilyn y drefn isod:

- Trafodaeth strategol sy'n cynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Heddlu, y tîm Diogelu Plant neu Oedolion agored i Risg, gweithwyr proffesiynol arwyddocaol eraill a'r unigolyn sy'n amau fod cam-drin wedi digwydd, neu sydd wedi siarad â'r plentyn, person ifanc neu oedolyn agored i risg.
- Gwneir penderfyniad ynghylch a ellir cyfiawnhau ymchwiliad. Os taw dyna'r achos, bydd ymchwiliad ar y cyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol/Yr Heddlu'n digwydd gyntaf.
- Gall yr ymchwiliad gynnwys:
    - Trafodaeth anffurfiol gyda'r plentyn, person ifanc neu oedolyn agored i risg
    - Cyfweliad ffurfiol gyda'r Heddlu (+/- Gwasanaethau Cymdeithasol) sy'n cael ei recordio ar fideo yn dilyn y datgeliad
    - Archwiliad meddygol
    - Asesiad Rhagarweiniol o'r Teulu
- Bydd unrhyw fesurau disgyblu mewnol angenrheidiol yn dilyn yr ymchwiliad hwn.
- Os oes digon o bryder, gellir cynnal cynhadledd diogelu plentyn neu oedolyn agored i risg i benderfynu'r ffordd orau i weithredu er mwyn diogelu'r plentyn, person ifanc neu'r oedolyn agored i risg ac i helpu'r teulu. Efallai y caiff achos troseddol ei ddwyn yn erbyn y camdriniwr

## Adran 7 - Cofnodi digwyddiadau, pryderon ac atgyfeiriadau

Mae Cyswllt Celf yn cydymffurfio'n llwyr â'i rwymedigaethau dan Ddeddf Diogelu Data 2018 a deddfwriaeth berthnasol arall mewn perthynas â thrin, defnydd, cadw a chael gwared ar wybodaeth bersonol mewn dull diogel. Cofnodir digwyddiadau, pryderon ac atgyfeiriadau, ac fe'u cedwir ar wahân ac mewn ffordd ddiogel mewn blychau â chlo, nad ydynt yn gludadwy, gyda chyfyngiadau llym o safbwynt mynediad atynt ac ar gael yn unig i'r sawl sydd â'r hawl i'w gweld fel rhan o'u dyletswyddau.

## Adran 8 – Cymorth i Staff a Gweithwyr Eraill

Byddwn yn darparu ac yn talu am sesiwn gwnsela untro ar gyfer staff a gweithwyr eraill lle gallent fod wedi cael eu heffeithio gan ddatgeliad a / neu ddigwyddiad fel rhan o'u gwaith gyda ni.

## Adran 9 - Ein dull o weithredu'r polisi

Mae gofyn i bob Ymddiriedolwr dderbyn hyfforddiant ym maes Diogelu Plant bob tair blynedd.
Rydym yn cynnal sesiynau hyfforddi blynyddol ar ein polisi ar gyfer y sawl sy'n gweithio gyda ni. Os nad yw gweithiwr wedi llwyddo i fynychu'r hyfforddiant a gynigir, byddwn yn cynnig sesiwn hyfforddi unigol cyn cychwyn prosiect. Rydym yn disgwyl i'r sawl sy'n gweithio inni fynychu sesiwn hyfforddi ar ein polisi bob tair blynedd.

## Adran 10 - Unigolion Cyfrifol

Aelod o staff dynodedig: Siân Walters, Swyddog Prosiect
01691 648 929 - 07814 523 521 - sian@artsconnection.org.uk

Ymddiriedolwr dynodedig: Martin Duckers, Bwrdd Ymddiriedolwyr
01691 649 063 – 07940 569 179 - duxicus@gmail.com